RNIB
Cymru
Golwg gwahanol
See differently

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg

## Cofnodion: 12 Tachwedd 2019

## Ystafell Gynadledda A, Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

## 12.15pm i 1.15pm

### Yn bresennol:

**Cadeirydd**: Dr Dai Lloyd AC

**Yn bresennol**:
Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd)
Darren Price (staff Dai Lloyd AC)
Sarah Hughes, Cadeirydd WAVIE (Cymdeithas Addysgwyr Nam ar y Golwg Cymru)
Kirsty Foxhay, intern gyda Dai Lloyd AC
Mike Austin, offthalmolegydd ymgynghorol
Gwyn Williams, offthalmolegydd ymgynghorol
Adele Francis, Cymdeithas Macwlaidd
Eryl Williams, IGA
Ryland Doyle, (Staff Mike Hedges AC)
Rhiannon Clarke, Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio Llywodraeth Cymru
Sharon Beatty, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Carly Buckingham, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jill Newman ac Angie Nesbit (drwy Skype), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Heather Waterman, Athro Nyrsio ac Offthalmoleg, Prifysgol Caerdydd
Elin Edwards, RNIB

Ansley Workman, RNIB
Paul Pavia, Insight Wales
Lara Brock, Conffederasiwn GIG Cymru
Claire Farren, RNIB
Marilyn Campbell, claf
Tim Palmer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Tim Palmer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

**Ymddiheuriadau**:

David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig, Llywodraeth Cymru
Sarah O'Sullivan Adams, Llywodraeth Cymru
John Sanders, claf
Olivia Shorrocks, Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio
Fiona Jenkins, Cadeirydd Grŵp Llywio Gofal Llygaid
Eileen Schott (claf)
Sali Davies, Optometreg Cymru
Peter Jones, Cŵn Tywys
Hayley Dixon Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
Andrea Gordon, Cŵn Tywys
Owen Williams, Cyngor Cymru i’r Deillion
Katie Chapelle, Y Gymdeithas Strôc

## 1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd Dr Dai Lloyd AC bawb i’r cyfarfod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, diweddariadau ac ystyried ymateb y Gweinidog

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. Cylchredwyd ymateb y Gweinidog i'r adborth a roddwyd yn y cyfarfod blaenorol ynghylch mesurau canlyniadau newyddion ar gyfer gofal llygaid.

**3. Sut mae'r Gronfa Drawsnewidiol yn cefnogi newid i ofal llygaid ledled Cymru:**

a. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: o dan arweiniad Dr Jill Newman, Cyfarwyddwr Perfformiad ac Arweinydd Corfforaethol, Mesurau Gofal Llygaid**
   Rhannwyd sleidiau'r cyflwyniad.
   Pwyntiau allweddol o'r sleidiau:

- newidiadau demograffig a'r galw cynyddol, oddeutu 30% dros 15 mlynedd ar gyfer rhai cyflyrau,
- mae creu rhestr aros sy'n seiliedig ar ffactor risg a'r dyddiad cau clinigol yn dangos bod gan 99% o gleifion Prifysgol Betsi Cadwaladr bellach HRF (Ffactor Risg Iechyd),
- Canlyniad a fwriedir o ran cataractau i leihau nifer y camau yn y broses a lleihau nifer yr ymweliadau ag ysbytai i gleifion, gan gysylltu'r llawdriniaeth gyntaf a'r ail lawdriniaeth ar y llygad, cynyddu cleifion allanol a chynyddu'r capasiti ar gyfer cleifion R1,
- Glawcoma – arweinydd gofal eilaidd newydd a gweithlu ag iddo ddyluniad newydd Mae gofal sylfaenol yn lleihau canlyniadau positif ffug ym Manceinion 24%
- Pigiadau AMD ac IVT gwlyb – ar gael o Ionawr 2020 ymlaen
- *Hydroxychloroquine* – cynllun peilot wedi'i gynnal yn llwyddiannus, ei gyflwyno fel rhan o'r Ganolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig Gymunedol
- Mae cronfa drawsnewidiol wedi bod yn hanfodol wrth gefnogi'r broses o ddylunio'r modd o ddarparu gwasanaeth.

**b. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: dan arweiniad Carly Buckingham, Rheolwr Darparu Gwasanaethau Offthalmoleg**

Rhannwyd sleidiau'r cyflwyniad.

Pwyntiau allweddol o'r sleidiau:

- Ceisio lleihau niwed i'r gymuned a darparu mesurau gofal llygaid a darparu gofal o ansawdd uchel,
- sicrhau cyllid cynaliadwy o £605,000 i gefnogi cyfalaf a diweddaru offer,
- Mireinio'r broses atgyfeirio o ran cataract – rhyddhau capasiti'n sylweddol a dylai gyrraedd capasiti dros 50% gyda 1800 o apwyntiadau'n cael eu rhyddhau
- Glawcoma – cynhaliwyd y broses dendro fis Awst 2018, ac arweiniodd hynny at 11 o geisiadau am bractisau, â phob un ohonynt yn briodol ar gyfer symud ymlaen. O ganlyniad i hynny gostyngwyd 1250 o slotiau.
- Symud ymlaen: parhau i ailddylunio gwasanaethau er budd yn y tymor hir, i greu gwasanaeth cynaliadwy ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio ac i ddenu ymgynghorwyr. Cydweithio rhanbarthol gyda i'w

archwilio ymhellach gyda Bae Abertawe ynghyd â'r trydydd sector.

c. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro: dan arweiniad Sharon Beatty, Cynghorydd Optometreg**
Rhannwyd sleidiau'r cyflwyniad.
Pwyntiau allweddol o'r sleidiau:
- Yn ôl y sleidiau, dengys yr ystadegau sefyllfa heriol o ran canran y cleifion R1 sy’n yn aros am apwyntiadau o fewn y dyddiad targed,
- Mae cyllid cynaliadwyedd o £1.2 m ar draws 5 llwybr prosiect wedi profi llwyddiant o 9,000 o gleifion mewn 12 mis ledled Cymru,
- Cysylltwyd pob llwybr prosiect drwy systemau gydag ysbyty'r Mynydd Bychan i fonitro a phrofi
- Caiff yr holl ddata a’r wybodaeth eu lanlwytho i'r system i roi trosolwg i'r ymgynghorwyr o bob apwyntiad claf ar draws pob llwybr.

Rhoddodd y Cadeirydd, Dr Dai Lloyd, gyfle i ofyn cwestiynau.

Eglurodd y claf, Marilyn Campbell, beth oedd ei phrofiad personol o apwyntiadau. Soniodd nad oedd wedi cael apwyntiad hyd yn hyn na chafodd ei ganslo, ers 2001. Mae ei hapwyntiad diweddaraf, argyfer mis Hydref, wedi’i aildrefnu ar gyfer mis Ionawr 2020.

Holodd Ansley Workman bob un o'r 3 Bwrdd Iechyd am eu cynlluniau ar ôl ariannu, yn cynnwys amserlenni a bwriadau o ran y llwybrau.

Ymatebodd Carly Buckingham, gan gadarnhau bod cynllun 3 blynedd gyda'r tîm gweithredol ar hyn o bryd a'i fod wedi'i gytuno mewn egwyddor, ond nad yw amserlenni wedi'u cadarnhau eto.

Ychwanegodd Mike Austin adborth cadarnhaol ynglŷn â chydweithio drwy gydol y tri chyflwyniad. Mynegodd bryderon ynglŷn â'r ffaith bod cleifion yn y system newydd ond nad oes digon o gapasiti i gynnig gwasanaethau i bob un. Nid yw'r data a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos unrhyw welliannau. Ychwanegodd fod angen cyfiawnhau a chymeradwyo modelau a dyluniadau'r llwybrau. Mae angen ailgynnal yr edefyn gwybodaeth, llinyn y llwybr a'r elfen gost gydag ymarfer a yrrir gan amser unwaith eto ar bob llwybr.

Nododd Jill Newman fod amserlenni wedi'u hychwanegu at yr IMTP ym mis Ionawr 2020, yn ogystal â chostau gofal llygaid, a bydd twf yn y galw’n parhau am y 3 blynedd nesaf.

Tynnodd Heather Waterman sylw at y pryderon bod gan gleifion fynediad at grwpiau cymorth cleifion o fewn gwasanaethau eraill, pa mor hawdd yw cael gafael ar ddeunydd a gwybodaeth addysgol, a sicrhau yr aed i’r afael ag anghenion addysg a chymdeithasol.

Ychwanegodd Sharon Beatty fod gwaith wedi'i gynnal er mwyn datblygu'r gwasanaethau a'r addysg hyn. Mae cysylltiadau â'r meysydd hyn yn rhan o bob llwybr.
Nododd Ansley Workman fod angen i'r gwasanaethau hyn fod yn seiliedig ar berthnasoedd personol i wneud yn siŵr bod y meysydd hynny’n cael eu cwmpasu. Ar gyfer y meysydd hynny lle nad oes arbenigedd perthnasol, mae angen i ni wneud yn siŵr bod y rhain yn cael eu nodi a'u rheoli ar eu hyd.

Nododd Gwyn Williams fod cydweithio’n ofynnol er mwyn i bethau fynd rhagddynt mewn modd effeithlon. Ar hyn o bryd, mae ardaloedd daearyddol yn gweithio'n annibynnol, yn hytrach na’n bod i gyd yn cydweithio. Tynnodd Gwyn sylw at y ffaith bod angen hyfforddi 55 ar gyfer 77 o atgyfeiriadau. Fodd byddnag, byddai atgyfeiriadau chwarterol yn fwy cwta a chyflym.

Yn ôl Sarah Hughes, mae pawb yn gwneud rhai pwyntiau da, yn enwedig o ran cysylltiadau cymunedol â phobl ac adnabod cleifion yn well. O ran Swyddogion Cyswllt Clinigau Llygaid mewn clinigau plant y mae’n bosibl nad ydynt yn gwybod digon amdanynt, mae angen eu cyfeirio gyda gwybodaeth gywir. Ychwanegodd Sarah fod gwybodaeth gyswllt yn cael ei gwirio’n rheolaidd i wneud yn siŵr bod manylion cyswllt a roddir i gleifion yn rhai cyfredol, a’u bod yn dod o hyd i’r gwasanaeth nam ar y golwg lleol sy’n addas ar eu cyfer nhw.

Ychwanegodd Eryl Williams at y sylwadau hyn drwy sôn am bwysigrwydd sefydlu canolfannau ODTC yn iawn. Ar hyn o bryd y cyfraddau rhagosodedig o ran syrthiadau yw 40%. I gefnogi hyn, byddai unigolyn penodedig yn arfer sicrhau bod cleifion yn defnyddio eu diferion llygaid. I gefnogi hyn, byddai unigolyn penodedig yn arfer sicrhau bod cleifion yn defnyddio eu diferion llygaid.

Ychwanegodd Sharon fod yna fyfyrwyr o fewn eu gwasanaeth sy’n cynnig gwneud hynny.

Soniodd Mike Austin fod y rheiny’n cael eu galw’n Hyrwyddwyr Diferion (*Drop Champions*), a bod potensial i sicrhau eu parhad mewn rhyw rôl neu’i gilydd. Ychwanegodd Mike fod angen Cymorth Rhith-glinigau er mwyn cynnal 100 o sesiynau ymgynghori, ac nad oedd hynny wedi’i ddwyn i ystyriaeth i’r perwyl hwn.

Yn ôl Carly Buckingham, mae’r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig, fodd bynnag, nid yw'n cael ei ariannu gan y cyllid cynaliadwyedd a dderbynnir ond yn hytrach o'r gyllideb flynyddol arferol, ac mae'n ymddangos yn yr IMTP. Ychwanegodd Carly mai'r grŵp proffesiynol ar gyfer addysg yn aml yw'r nyrs, sy'n codi’r cwestiwn, a oes angen mwy o nyrsys arnom i gau'r bwlch addysg?

Nododd Sharon Beatty nad yw hynny’n ofynnol ar hyn o bryd gan y bydd y bwlch yn cael ei lenwi drwy'r canolfannau sy'n cael eu creu.

Nododd Gwyn Williams fod yr arferion hyn ar waith yn Abertawe ond dylent fod yn safonol drwy Gymru gyfan, a dylid cynnig cyllid er mwyn diwallu’r galw o ran nyrsys.

Gofynnodd Darren Price a yw hynny’n ofynnol o ran hyfforddiant? At hynny, a ydym wedi datblygu rhaglen hyfforddi Cymru gyfan?

Ychwanegodd Mike Austin fod angen i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) fod yn rhan o'r drafodaeth hon am addysg. Cadarnhaodd Jill Newman fod Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol ar gael i nyrsys yn AaGIC.

Nododd Elin Edwards fod y Mesurau Gofal Llygaid diweddar yn dangos bod 114,090 o gleifion R1 37% y tu hwnt i'w targed, a gofynnodd pryd y gallwn ddechrau gweld y gostyngiad yn y ffigurau?

Ychwanegodd Mike Austin nad yw'r ffigurau yn peri syndod o fewn yr adroddiad gan fod angen mwy o amser i ddangos y gwelliannau yn y system.

Awgrymodd Gwyn Williams y dylai Cymru fod yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn ac y bydd corff cyfreithiol ffurfiol i Gymru yn ei le cyn bo hir, drwy Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, a hynny i ddwyn yr holl arbenigedd ynghyd a lleihau gweithluoedd tameidiog.

## 4. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw beth.

Diolchodd Dr Dai Lloyd AC i’r grŵp am eu cyfraniadau a dwyn y cyfarfod i ben am 1:15pm.

## 5. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf

Dydd Mercher 11 Mawrth, 12:15pm, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ystafell Gynadledda A.

Diwedd y ddogfen.